

## Hysbysiad preifatrwydd – Ymgeiswyr Recriwtio

Fel rhan o'i arferion recriwtio, bydd CCAUC yn casglu ac yn cadw eich data personol. Trwy wneud hynny, rydym eisiau bod yn agored a thryloyw am yr wybodaeth sydd gennym a sut rydym yn ei defnyddio.

Mae hyn yn rhan o'r ffordd mae CCAUC yn cadw at yr holl ddeddfau diogelu data perthnasol. Bydd unrhyw newidiadau i sut rydym yn rheoli eich data personol yn cael eu diweddarau yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Gellir anfon unrhyw ymholiadau am yr wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd ar e-bost i'r adran Adnoddau Dynol [hrdepartment@CCAUC.ac.uk](mailto:hrdepartment@CCAUC.ac.uk) neu drwy ffonio 029 2085 9645. Cyfeirir at wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) lle mae rhagor o wybodaeth ar gael.

### Beth rydym yn ei gofnodi

Rydym yn cofnodi'r canlynol:

- Teitl
- Enw, cyfenw a'r enw rydych yn ei ffafrio
- Cyfeiriad cartref
- Rhif ffôn (cartref a symudol)
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Yr ieithoedd rydych yn eu defnyddio a'r iaith rydych yn ei ffafrio
- Eich hawl i weithio yn y DU
- Cyfnod rhybudd gadael
- Troseddau heb ddarfod
- Manylion am anabledd fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer y broses gyfsweld a chyflogaeth yn y dyfodol o bosib
- Gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb (rhyw, oedran, crefydd, statws priodasol, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol)
- Cymwysterau addysgol a phroffesiynol
- Hanes cyflogaeth
- Geirda

### Pam rydym yn cofnodi

Mae'r holl wybodaeth uchod yn cael ei chasglu a'i chadw er mwyn cynnal proses recriwtio deg, agored a thryloyw ac, mewn rhai meysydd, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Nid ydym yn gofyn am unrhyw wybodaeth nad oes arnom ei hangen a byddwn yn dweud wrthyfych chi os yw darparu rhywfaint o ddata personol yn ddewisol, gan gynnwys os byddwn yn gofyn am eich caniatâd i'w prosesu.

Daw ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Os byddwch yn llwyddiannus ar ôl y cyfweiliad ac yn cael cynnig cyflogaeth gyda CCAUC, mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol yn ymestyn i gynnwys y canlynol:

- Deddf Pensiynau 2008
- Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998
- Rheoliadau Amser Gweithio 1998

- Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999
- Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth) 2006
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Deddf Treth Incwm 2007

Hefyd rhaid i CCAUC gadw at Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil, y manylir arnynt yn ein polisi a'n gweithdrefnau Recriwtio a Dethol.

### **Beth rydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth**

Rydym yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel mewn Bas Data Adnoddau Dynol, mewn ffolderi electronig diogel ac mewn ffeiliau papur sydd wedi'u cloi mewn cypyrddau.

Pan mae eich ffurflen gais yn mynd am y rhestr fer, yr unig fanylion a ddarperir i'r panel sy'n llunio'r rhestr fer yw'r canlynol:

- Cymwysterau addysgol a phroffesiynol
- Hanes cyflogaeth
- Geirda

Mae gweddill yr wybodaeth yn cael ei thynnu a'i chadw ar wahân ac yn ddiogel fel y nodir uchod.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti yn y cam ymgeisio nac wrth gadw eich gwybodaeth os ydych chi wedi bod yn aflwyddiannus.

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd parti os ydych chi'n llwyddiannus ac yn cael cynnig cyflogaeth. Byddwn yn rhoi gwybod i weinyddwyr ein pensiwn beth yw eich enw, eich cyfeiriad a'r dyddiad y byddwch yn dechrau yn eich swydd er mwyn i chi dderbyn pecyn pensiwn.

Nid yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu o gwbl ag unrhyw drydydd parti y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AAE).

Rydym yn mabwysiadu mesurau diogelwch fel amgryptio i ddiogelu protocolau trosglwyddo os ydym eisiau trosglwyddo eich data.

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i wneud y canlynol:

- prosesu eich ffurflen gais (gweler ein gweithdrefnau am fanylion llawn y broses hon)
- cysylltu â chi i roi gwybod i chi eich bod wedi llwyddo i gael cyfweiliad
- cysylltu â chi i roi gwybod i chi nad ydych chi wedi llwyddo i gael cyfweiliad
- rhoi gwybod i chi eich bod wedi llwyddo i gael cynnig cyflogaeth
- rhoi gwybod i chi nad ydych chi wedi bod yn llwyddiannus ar ôl cyfweiliad
- llunio adroddiad monitro cydraddoldeb dienw blynyddol i gyflawni ein dyletswydd cydraddoldeb
- creu adroddiadau gwybodaeth rheoli am niferoedd yr ymgeiswyr
- o dro i dro, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i gael adborth ar eich profiad o ymgeisio.

Nid yw CCAUC yn defnyddio unrhyw feddalwedd sy'n gwneud penderfyniadau awtomatig am ymgeiswyr.

### **Cyfnodau cadw**

Byddwn yn cadw eich ffurflen gais a'r data personol sy'n cyd-fynd am ddwy flynedd, yn unol â'n gweithdrefnau recriwtio a dethol ac Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd eich gwybodaeth yn cael ei dileu o'n bas data electronig ac o'r ffolderi electronig diogel a bydd y cofnodion papur yn cael eu rhwygo.

## Eich hawliau

Chi yw gwrthrych y data ac o dan y gyfraith diogelu data mae gennych chi'r hawliau a nodir isod. Ym mhob achos, anfonwch eich cais ar e-bost i [hrdepartment@CCAUC.ac.uk](mailto:hrdepartment@CCAUC.ac.uk).

### 1. Hawl i gael gwybod

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi am gasglu a defnyddio eich data personol.

### 2. Hawl mynediad

Mae gennych hawl i ofyn am fynediad at eich data personol ac i hyn gael ei ddarparu o fewn mis i dderbyn y cais.

### 3. Hawl i gywiro

Mae gennych hawl i gael cywiro data personol anghywir neu eu cwblhau os ydynt yn anghyflawn.

### 4. Hawl i ddileu

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn datgan hawl unigolion i gael eu hanghofio neu eu dileu. Os na chewch gynnig cyflogaeth o ganlyniad i'ch cais, gallwch ofyn am hyn. Fodd bynnag, os cewch gynnig cyflogaeth, oherwydd y rhwymedigaethau cyfreithiol sydd gan CCAUC fel rhan o'r Ddeddf Pensiynau, y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth a'r Ddeddf Treth Incwm, nid yw'n debygol y bydd modd dileu cyflogai o'n cofnodion yn llwyr.

Ceir manylion am yr amgylchiadau cysylltiedig â dileu ar [wefan SCG](#).

### 5. Hawl i gyfyngu ar brosesu

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn datgan hawl unigolion i gyfyngu ar brosesu eu gwybodaeth bersonol, o dan rai amgylchiadau. Felly, mae gennych hawl i dynnu eich cais yn ôl ar unrhyw adeg a gofyn i ni stopio prosesu'ch gwybodaeth. Fodd bynnag, os cewch gynnig cyflogaeth, oherwydd y rhwymedigaethau cyfreithiol sydd gan CCAUC fel rhan o'r Ddeddf Pensiynau, y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth a'r Ddeddf Treth Incwm, nid yw'n debygol y bydd modd peidio â phrosesu eich gwybodaeth.

Ceir manylion am yr amgylchiadau cysylltiedig â chyfyngu ar brosesu ar [wefan SCG](#).

### 6. Hawl i symudedd data

Mae gennych hawl i aildefnyddio eich data personol ar gyfer eich pwrpas eich hun ar draws gwahanol wasanaethau. Os gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth yn rhwydd ac yn ddiogel, yn electronig, byddwn yn gwneud hynny.

Ceir mwy o fanylion am yr hawliau hyn ar [wefan SCG](#).

#### 7. Hawl i wrthwynebu

Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth mewn rhai sefyllfaoedd. Felly gallwch ofyn am i'ch cais gael ei dynnu'n ôl a gwrthwynebu ei brosesu.

Ceir manylion am eich hawliau i wrthwynebu a sut ddylid delio â'r ceisiadau hyn ar [wefan SCG](#).

#### 8. Hawliau mewn perthynas â phroffilio a gwneud penderfyniadau awtomatig.

Nid yw CCAUC yn gwneud unrhyw waith prosesu drwy broffilio neu benderfyniadau awtomatig.

Ceir manylion llawn am y darpariaethau ar [wefan SCG](#).

### **Rhoi Gwybod am Dorri Rheolau**

Mae gan bawb gyfrifoldeb i roi gwybod am dorri rheolau. Rhaid gwneud hyn o fewn 72 awr i ddeall am hyn. Rhaid i chi roi gwybod am dorri rheolau i [hrdepartment@CCAUC.ac.uk](mailto:hrdepartment@CCAUC.ac.uk).

Os nad yw hyn yn bosib, neu os nad yw'n berthnasol o dan eich amgylchiadau, gallwch roi gwybod i SCG yn uniongyrchol drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar ei [gwefan](#).